

LC23-01

DEDDF Y GWASANAETH IECHYD GWLADOL (CYMRU) 2006

Cyfarwyddydau i Fyrddau Iechyd Lleol ynghylch y Datganiad ar Hawlogaethau Ariannol ar gyfer Gwasanaethau Deintyddol Cyffredinol (Diwygio) 2023

Gwnaed 13 Ionawr 2023

Yn dod i rym 14 Ionawr 2023

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adrannau 60, 203(9) a (10) a 204(1) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006(1), ar ôl ymgynghori yn unol ag adran 60(4) o'r Ddeddf honno â'r cyrff yr ymddangosai iddynt hwy eu bod yn cynrychioli'r personau y mae'r Cyfarwyddiadau hyn yn ymwneud â'u tâl ac ag unrhyw bersonau eraill y maent yn ystyried eu bod yn briodol, yn rhoi'r Cyfarwyddiadau a ganlyn:

Enwi a chychwyn

1.—(1) Enw'r Cyfarwyddiadau hyn yw Cyfarwyddiadau i Fyrddau Iechyd Lleol ynghylch y Datganiad ar Hawlogaethau Ariannol ar gyfer Gwasanaethau Deintyddol Cyffredinol (Diwygio) 2023.

(2) Daw'r Cyfarwyddiadau hyn i rym ar 14 Ionawr 2023 ond maent yn cael effaith o 1 Ebrill 2022 ymlaen(2).

(1) 2006 p. 42.

(2) Mae adran 60(3)(e) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 yn caniatáu effaith ôl-weithredol y Cyfarwyddiadau a roddir o dan adran 60 o'r Ddeddf honno ar yr amod nad yw darpariaeth o'r fath yn niweidiol i'r personau y mae'n ymwneud â'u tâl.

Diwygiadau i'r Datganiad ar Hawlogaethau Ariannol ar gyfer Gwasanaethau Deintyddol Cyffredinol

2. Mae'r Cyfarwyddiadau a roddir gan Weinidogion Cymru i Fyrddau Iechyd Lleol ynghylch y Datganiad ar Hawlogaethau Ariannol ar gyfer Gwasanaethau Deintyddol Cyffredinol(1), a ddaeth i rym ar 24 Ebrill 2009, wedi eu diwygio fel a ganlyn.

Diwygio adran 2

3. Yn adran 2 (gwerthoedd contractau blynyddol wedi eu negodi), yn lle paragraff 2.8 rhodder—

“2.8 The percentage determined by the Welsh Ministers for the financial year commencing on 1 April 2022 is 4.5%.”.

Diwygio adran 7

4. Mae adran 7 (taliadau mewn cysylltiad â hyfforddiant galwedigaethol) wedi ei diwygio fel a ganlyn—

- (a) ym mharagraff 7.2(c) (cymhwystera ar gyfer taliadau mewn cysylltiad â hyfforddiant galwedigaethol), yn lle “£2,865” rhodder “£2,994”;
- (b) ym mharagraff 7.4(c) (ceisiadau am daliadau o dan yr adran hon), yn lle “£2,865” rhodder “£2,994”;
- (c) ym mharagraff 7.5 (taliadau hyfforddiant galwedigaethol sydd i'w gwneud)—
 - (i) yn is-baragraff (a), yn lle “£952” rhodder “£995”;
 - (ii) yn is-baragraff (b), yn lle “£2,865” rhodder “£2,994”; a
 - (iii) yn is-baragraff (d), yn lle “£5,640” rhodder “£5,894”.

Llofnodwyd gan Paul Casey, Dirprwy Gyfarwyddwr yr Is-adran Gofal Sylfaenol, o dan awdurdod y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, un o Weinidogion Cymru.

(1) 2009 Rhif 18. Diwygiwyd gan 2010 Rhif 22, 2011 Rhif 33, 2012 Rhif 27, 2013 Rhif 11, 2014 Rhif 27, 2015 Rhif 23, 2016 Rhif 26, 2016 Rhif 31, 2017 Rhif 19, 2018 Rhif 73, 2019 Rhif 42, 2020 Rhif 66, 2021 Rhif 21, LC21-88 a LC22-17.

Paul Cury

Dyddiad: 13 Ionawr 2023